TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CYNGOR GWYNEDD

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Llwybrau Teithio Llesol Bangor

A487, Ffordd Penrhos, a Ffordd Penchwintan (Tudalen 3 o 3)

Tudalen 6

Lonydd beicio cynghorol ar y ffordd - Gyda digon o le ar Ffordd Penchwintan i barhau â'r llwybr cyd-ddefnyddio. Rydym yn rhagweld y byddai beicwyr yn defnyddio'r ffordd ar y pwynt hwn. Er mwyn helpu gyrwyr i roi digon o le i feicwyr ar y ffordd i fyny'r rhiw (pan fydd beicwyr yn fwy agored i niwed) gallem farcio lonydd beiciau ar y ffordd. Cynghorol yn unig fyddai'r rhain, felly byddai ceir yn cael defnyddio'r lle hwn - ond byddai'n helpu gyrwyr i roi digon o le i fynd heibio.

Tudalen 7

LLINELL CWRB ARFAETHEDIG
YMYL ARFAETHEDIG
CYSYLLTIAD TEITHIO LLESOL PRESENNOL
WYNEB NEWYDD AR Y GERBYTFFORDD
CERBYTFFORDD NEWYDD ARFAETHEDIG
CYFLEUSTER CYD-DDEFNYDDIO ARFAETHEDIG
LLAIN ARFAETHEDIG

LLWYBR BEICIO ARFAETHEDIG
LLWYBR TROED ARFAETHEDIG
YNYS ARFAETHEDIG
PALMANT BOTYMOG MELYN
PALMANT BOTYMOG COCH
PALMANT RHESOG ARFAETHEDIG
CYSYLLTEDD I LWYBRAU TEITHIO LLESOL ARFAETHEDIG/PRESENNOL

Tudalen 8

Cysylltiad i'r orsaf drenau –
Mae Cyngor Gwynedd a Trafnidiaeth Cymru yn awyddus i wella mynediad teithio llesol o'r cynllun hwn i gefn yr Orsaf, gan fod ymarfer ymgysylltu diweddar yn yr Orsaf wedi dangos bod galw am gysylltiad. Mae hyn, yn ogystal â gwelliannau eraill ar gyfer teithwyr llesol yn yr Orsaf (gan gynnwys ymchwiliadau i welliannau i danffordd Ffordd Caernarfon bresennol) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd fel rhan o gynllun ar wahân. Bydd cydweithredu parhaus rhwng timau'r prosiect yn ceisio sicrhau cysylltiad didrafferth yn y dyfodol.